CORFF LLYWODRAETHU
YSGOL GYMRAEG BRO OGWR
GOVERNING BODY

ADRODDIAD BLYNYDDOL I RIENI
2018 / 2019
ANNUAL REPORT TO PARENTS

Neges gan Gadeirydd y Llywodraethwyr

Pleser mawr yw cael cyflwyno ein hadroddiad ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/2019. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Llywodraethwyr wedi gweithio'n galed i sicrhau bod eich plant yn cael addysg o'r safon uchaf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i fwriadu i ddangos i chi, fel rhieni, rai o'r pethau yr ydym yn eu gwneud wrth inni fonitro gwaith yr ysgol. Fel Llywodraethwyr mae gennym gyfrifoldeb i weithio gyda'r Pennaeth, yr Uwch Dîm Arwain a'r staff i ddarparu amgylchedd dysgu cyffrous a bywiog ar gyfer disgyblion yr ysgol. Eleni, rydym wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn cefnogaeth gan yr awdurdod lleol i gwblhau addasiadau mewnol. Bydd yr ardal ddysgu newydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau grŵp a gwersi cerdd.

Daw Llywodraethwyr yr ysgol o amrywiaeth o gefndiroedd ac maent yn gwirfoddoli eu hamser a'u harbenigedd i sicrhau bod yr ysgol yn cyrraedd y safonau uchaf posibl a'i bod yn chwarae rhan weithredol ym mywyd y gymuned. Eleni rydym wedi croesawu dau Lywodraethwr Awdurdod Lleol newydd, Mrs Helen Lowcock-James a'r Cynghorydd Keith Hughes a llywodraethwr athrawon newydd, Mr Emrys Roberts. Gadawodd ein llywodraethwr staff cymorth, Miss Elizabeth Evans ni ar ddiwedd y flwyddyn academaidd hon a dymunwn yn dda iddi wrth iddi ymgymryd a chwrs athrawon.

Unwaith eto eleni derbynodd y llywodraethwyr gyflwyniadau gan ein haelodau staff sydd â chyfrifoldebau ychwanegol, gan gynnwys datblygu TGCh, dysgu annibynnol, llythrennedd a rhifedd a'r Cyfnod Sylfaen. Mae llywodraethwyr yn ymdrechu i sicrhau bod ganddynt ddarlun clir o safonau yn yr ysgol ac yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr ALl a Chonsortiwm Canol De i fonitro safonau dysgu a chyflawniad. Rydym wedi parhau â'n rolau fel llywodraethwyr cyswllt sydd â chyfrifoldeb penodol i ganolbwyntio ein hymweliadau yn yr ysgol ar feysydd allweddol. Rydym wedi cynnal ein cyfarfod categoreiddio gyda'n Cynghorydd Her a bydd canlyniad hyn ar gael ym mis Ionawr 2020 trwy'r sianeli arferol.

Yn dilyn adborth gan rieni, rydym yn treialu clwb brecwast ar safle'r ysgol, i ddarparu brecwast am ddim i ddisgyblion o oedran addysg statudol cyn y diwrnod ysgol prysur. Byddwn yn cwrdd â staff yr ysgol a'r ALl i adolygu canlyniad y treial a bydd yr ysgol yn hysbysu rhieni yn ddiweddarach yn y tymor a yw'r treial clwb brecwast wedi bod yn llwyddiannus.

Mae gan y Corff Llywodraethu gyfrifoldeb penodol am sicrhau bod y gyllideb yn cael ei gwario'n ddoeth. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ein cynghori i gynllunio ar gyfer toriadau i'r gyllideb yn y dyfodol ac mae hyn yn golygu mai ychydig iawn o arian fydd dros ben. Mae'r Llywodraethwyr yn monitro gwariant yn ofalus ac fel ysgol rydym yn cyflawni gwerth ardderchog am arian, ond mae'n gyfnod o gyni cyllidol felly rydym yn diolch i Ffrindiau Bro Ogwr a'u cefnogwyr am godi arian bob blwyddyn er mwyn inni allu darparu'r pethau ychwanegol hynny na all cyllideb yr ysgol dalu amdanynt.

Yn olaf, hoffai'r Corff Llywodraethu ddiolch i Mrs Jayne a'i staff yn yr ysgol am eu gwaith caled a'u hymrwymiad i addysg y disgyblion yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr. Trwy gydol y flwyddyn rydym yn parhau i adeiladu perthnasoedd â staff fel ein bod yn gallu cynnal cydbwysedd rhwng cefnogaeth a her a gobeithiwn y byddwn yn cyflawni hyn.
Byddwn ni fel Corff Llywodraethu yn parhau i wneud pob ymdrech i sicrhau llwyddiant yr ysgol ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi fel rhieni a chyda'r staff yn yr ysgol i ddarparu'r addysg orau un ar gyfer ein plant.

Cofion gorau

Nik Dart, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Message from the Chair of Governors

It gives me great pleasure to present to you our report for the academic year 2018/2019. Over the past year Governors have worked hard to ensure that the quality of education for your children is of the highest standard. This report is intended to show you, as parents, some of the things that we do as we monitor the work of the school. As Governors we have a responsibility to work with the Headteacher, Senior Leadership Team and staff to provide an exciting and vibrant learning environment for the pupils at the school. This year, we have been very fortunate to receive support from the local authority to complete some internal modification to increase our usable classroom space within the school. The new learning area will also be used for group activities and music lessons.

The Governors at the school come from a variety of backgrounds and volunteer their time and expertise to ensure that the school is the best it can be and that it plays an active part in the life of the community. This year we have welcomed two new Local Authority Governors, Mrs Helen Lowcock-James and Cllr Keith Hughes and a new teacher governor, Mr Emrys Roberts. Our support staff governor, Miss Elizabeth Evans left us at the end of this academic year and we wish her well with her teacher training.

Governors have again this year received presentations from our staff members with additional responsibilities, including ICT development, independent learning, literacy and numeracy and the Foundation Phase. Governors strive to ensure that they have a clear picture of standards within the school and work closely with LA colleagues and the Central South Consortium to monitor standards of learning and achievement. We have continued our roles as link governors with specific responsibility to focus our visits in school on key areas. We have held our categorisation meeting with our Challenge Advisor and the outcome of this will be available in January 2020 via the usual channels.

Following parent feedback, we are trialling a breakfast club on the school site, to provide free breakfast to pupils of statutory schooling age before the busy school day. We will meet with the school and LA staff to review the outcome of the trial and the school will notify parents later in the term as to whether the breakfast club trial has been successful.

One of our responsibilities is ensuring that the budget is spent wisely. Bridgend County Borough Council has advised us to plan for budget cuts in future and this means that there will be little money to spare. Governors monitor spending carefully and as a school we achieve excellent value for money, but it is a time of austerity and so we thank Ffrindiau Bro Ogwr and its supporters for fundraising every year in order that we can provide those extras which the school budget cannot accommodate.

Finally, the Governing Body would like to thank Mrs Jayne and her staff at the school for their hard work and commitment to the education of the pupils at Ysgol Gymraeg Bro Ogwr. Throughout the year we continue to build relationships with staff so that we are able to maintain a balance between support and challenge and we hope we achieve this. We as a Governing Body will continue to make every effort to ensure the success of the school and look forward to working with you as parents and with the staff at the school to provide the very best education for our children.

Kind Regards

Nik Dart, Chair of Governors

1. MANYLION CYFARFODYDD / *DETAILS OF MEETINGS*

Ni chafodd y Corff Llywodraethu ddeiseb yn gofyn am gyfarfod ac felly ni chafodd cyfarfod ei gynnull.
The Governing Body did not receive a petition requesting a meeting and therefore a meeting was not convened.

2. ETHOL RHIANT-LYWODRAETHWYR / *ELECTION OF PARENT GOVERNORS*

Ar hyn o bryd nid ydym yn dal unrhyw swyddi gwag rhiant-lywodraethwr.
We are not currently holding any parent governor vacancies.

3. DATA AR BERFFORMIAD / *PERFORMANCE DATA*

Isod ceir crynodeb cymharol o'n perfformiad eleni
Please find below a comparative summary of our performance this year

DATA AR BERFFORMIAD HAF 2019 – DANGOSYDDION ALLWEDDOL
PERFORMANCE DATA SUMMER 2019 – KEY INDICATORS

Y CYFNOD SYLFAEN ***FOUNDATION PHASE***		
Dangosydd: Asesiad Athro *Indicator: Teacher Assessment*	Ysgol *School*	Cymru *Wales*
Canran Deilliant 5+ Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Cymraeg) *Percentage Outcome 5+ Language, Literacy and Communication (Welsh)*	90.7%	82.2%
Canran Deilliant 5+ Datblygiad Mathemategol *Percentage Outcome 5+ Mathematical Development*	94.4%	84.7%
Canran Deilliant 5+ Datblygiad Personol a Chymdeithasol *Percentage Outcome 5+ Personal and Social Development*	98.1%	92.2%
Dangosydd Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen *Foundation Phase Outcome Indicator*	90.7%	80%

CYFNOD ALLWEDDOL 2 *KEY STAGE 2*		
Dangosydd: Asesiad Athro *Indicator: Teacher Assessment*	Ysgol *School*	Cymru *Wales*
Canran Lefel 4+ mewn Saesneg *Percentage Level 4+ in English*	93.3%	89.7%
Canran Lefel 4+ mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf) *Percentage Level 4+ in Welsh (First Language)*	93.3%	88.4%
Canran Lefel 4+ mewn Mathemateg *Percentage Level 4+ in Mathematics*	98.3%	90.7%
Canran Lefel 4+ mewn Gwyddoniaeth *Percentage Level 4+ in Science*	93.3%	90.8%
Dangosydd Pynciau Craidd CA2 *KS2 Core Subject Indicator*	93.3%	87.8%

4. PRESENOLDEB / *ATTENDANCE*

95% oedd presenoldeb y disgyblion ar gyfer blwyddyn academaidd 2018 / 2019. Roedd hyn yn is na'n targed ar gyfer presenoldeb eleni ond yn gyfartal gyda'r canran disgwyliedig cenedlaethol o 95%. Hoffem annog rhieni/gwarcheidwaid i weithio gyda'r ysgol i sicrhau bod disgyblion yn mynychu'r ysgol yn feunyddiol ac yn brydlon ac i leihau ar wyliau yn ystod tymor ysgol lle posib. Mae presenoldeb a phrydlondeb yn cael eu monitro'n barhaus gan y Pennaeth a'r Uwch Dîm Arwain ar y cyd â'r Swyddog Lles Addysg a'n llywodraethwr cyswllt ar gyfer presenoldeb.

Pupil attendance for the academic year 2018 / 2019 was 95%. This was below our target for attendance this year but in line with the National expectation of 95%. We encourage parents/carers to work with the school to ensure that pupils attend school daily and punctually and limit holidays during term time where possible. Attendance and punctuality are continually monitored by the Headteacher and Senior Leadership Team in liaison with our Education Welfare Officer and our link governor for attendance.

Tymor ***Term***	**% Absenoldebau Awdurdodedig** **% *Authorised Absences***	**% Absenoldebau Anawdurdodedig** **% *Unauthorised Absences***	**% Presenoldeb** **% *Attendance***
Hydref 2018 *Autumn*	**3.7**	**0.7**	**95.6**
Gwanwyn 2019 *Spring*	**4.5**	**0.9**	**94.6**
Haf 2019 *Summer*	**4.4**	**1.0**	**94.6**
2018-19	**4.1**	**0.9**	**95.0**

5. GWEITHGAREDDAU CHWARAEON AC ALLGYRSIOL / *SPORTING AND EXTRACURRICULAR ACTIVITIES*

Mae'r ysgol wedi chwarae rhan lawn a gweithredol mewn llawer o weithgareddau chwaraeon ac allgyrsiol yn y sir yn ogystal â chystadlaethau cenedlaethol a'r rhai a drefnir gan Urdd Gobaith Cymru. Mae gwybodaeth am weithgareddau allgyrsiol a chwaraeon yn cael ei chyfleu'n eang gan yr ysgol; mae rhieni'n cael gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau a chyflawniadau ac maent yn gallu dilyn digwyddiadau ar Drydar lle y bo'n bosibl. Hoffai'r Llywodraethwyr ddiolch i staff a rhieni am eu cefnogaeth i ddigwyddiadau allgyrsiol eleni ac fel ysgol rydym yn parhau i ddathlu nifer o lwyddiannau yn y maes hwn.

The school has taken a full and active part in many sporting and extracurricular activities within the county along with National competitions and those organised by Urdd Gobaith Cymru. Information about extracurricular and sporting activities are widely communicated by the school; parents are regularly updated with events and achievements and are able to follow events on Twitter where possible. Governors thank staff and parents for their support of extracurricular events this year and as a school we continue to celebrate many successes in this area.

6. MANYLION AELODAETH O'R CORFF LLYWODRAETHU / *GOVERNING BODY MEMBERSHIP DETAILS*

Cadeirydd y Corff Llywodraethu yw Mrs Nik Dart d/o Ysgol Gymraeg Bro Ogwr. Clerc y Corff Llywodraethu yw Mrs Simone Delaney d/o Ysgol Gymraeg Bro Ogwr.

The Chair of the Governing Body is Mrs Nik Dart c/o Ysgol Gymraeg Bro Ogwr. The Clerk to the Governing Body is Mrs Simone Delaney c/o Ysgol Gymraeg Bro Ogwr.

MAE'R RHESTR O LYWODRAETHWYR FEL A GANLYN:
LIST OF GOVERNORS IS AS FOLLOWS:

Yr Awdurdod Lleol / *Local Authority*

Mrs E M Hughes

Mr S Hiscocks

Cllr K Hughes

Mrs H Lowcock-James

Cymunedol / *Community*

Cllr A Marshall

Mrs Rh Roberts

Mrs N Dart (Cadeirydd / *Chair*)

Dr C Flay Petty

Mr H Tudur

Rhiant / *Parent*

Dr M Morgan

Mr S Jones (Is-gadeirydd / *Vice chair*)

Mr G Derfel

Cllr T Thomas

Mrs S Jones

Staff Cymorth / *Support Staff*

Lle Gwag / Vacancy

Staff Addysgu / *Teaching Staff*

Miss C Carrington

Mr E Roberts

Pennaeth / *Headteacher*

Mrs S Jayne

7. DATGANIAD ARIANNOL 2018/2019 *FINANCIAL STATEMENT*

EMPLOYEES	
TEACHERS	939270
SCHOOL SUPPORT WORKERS	28147
CLERKS AND CLASSROOM SUPPORT	302017
SICKNESS AND MATERNITY INSURANCE	20914
STAFF TRAINING	995
OTHER COSTS eg POLICE CHECKS	572
	1291915
PREMISES AND RELATED COSTS	
GROUNDS MAINTENANCE	3727
REPAIRS, ETC TO BUILDINGS	14638
ENERGY	25197
RATES	24030
WATER SERVICES	9284
FIXTURES AND FITTINGS	110
CLEANING AND DOMESTIC SERVICES	30849
SPECIAL PERILS/ALL RISKS	728
	108563
TRANSPORT AND RELATED COSTS	
USE OF DISTRICT FACILITIES	0
SCHOOL ACTIVITIES TRANSPORT	2650
CAR ALLOWANCES/STAFF TRAVEL	0
	2650
SUPPLIES AND SERVICES	
CAPITATION (TEACHING MATERIALS)	24017
SCHOOL MEAL COSTS	88765
ICT RELATED COSTS	17749
PRINTING, STATIONERY ETC	2724
TELEPHONES/BROADBAND	4235
INSURANCE	3191
WELSH TRANSLATION CHARGES	249
SERVICE LEVEL AGREEMENTS	29598
TRADE WASTE	1335
LEASING	6639
MISCELLANEOUS EXPENDITURE	2671
	181173

WELSH GOVERNMENT GRANTS	230483
OTHER SCHOOL GRANTS	23060
SCHOOL MEAL INCOME	65811
MUSIC TUITION FEES	1105
COMMUNITY USE OF PREMISES	200
SUPPLY COVER INCOME	1695
	322354

NET SCHOOL EXPENDITURE **1261947**

8. CYSYLLTIADAU CYMUNEDOL / *COMMUNITY LINKS*

Mae gan yr ysgol gysylltiadau ag amryw fudiadau a sefydliadau sy'n cynnwys:

Menter Bro Ogwr, Mudiad Ysgolion Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Cyngor Cymuned Bracla, Cystadlaethau Traws Gwlad, Athletau, Rygbi a Phêl-rwyd Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr, Llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr, elusennau amrywiol, Y Gwasanaethau Cymdeithasol, Eco Sgolion, BBC, Glamorgan Gazette, S4C, Brwsio Dannedd, Nyrs Ysgol, Hyfforddiant Beicio, Cwmni Theatr M&M, Coleg Pen-y-bont. Rydym yn parhau i ddatblygu ein cysylltiadau cymunedol ac yn gwahodd rhieni/gwarcheidwaid i gysylltu â ni os oes ganddynt gysylltiadau â grwpiau cymunedol a fyddai â diddordeb mewn gweithio gyda ni.

The school has many links with various organisations which include:

Menter Bro Ogwr, Mudiad Ysgolion Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, South Wales Police, South Wales Fire and Rescue Service, Brackla Community Council, Bridgend Schools Cross Country, Athletics, Rugby and Netball Competitions, Bridgend Library, various charities, Social Services, Eco Schools, BBC, Glamorgan Gazette, S4C, Brushing Teeth, School Nurse, Cycle Training, M&M Theatre, Bridgend College. We are continuing to develop our community links and invite parents/carers to contact us if they have links with community groups who would be interested in working with us.

9. TARGEDAU AR GYFER GWELLA 2018 – 2019 *TARGETS FOR IMPROVEMENT*

Caiff ein targedau ar gyfer gwella ym mlwyddyn academaidd 2018-2019 eu rhestru isod. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn mae'r rhain wedi cael eu cyrraedd ac yn parhau i gael gwreiddio drwy'r ysgol. Hoffem ddiolch i arweinwyr yr ysgol sydd â chyfrifoldeb am y meysydd hyn ac i holl staff yr ysgol am eu hymrwymiad i gyflawni'r llwyddiant hwn.

Our targets for improvement for the academic year 2018-2019 are listed below. At the time of publication these have been met and continue to be embedded throughout the school. We thank school leaders with responsibility for these areas and all school staff for their commitment to achieving this success.

Blaenoriaethau / *Priorities*

1	Cwricwlwm i Gymru *Curriculum for Wales*
2	Lles Plant *Pupil Well-being*
3	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathbrebu *Information and Communication Technology*
4	Llythrennedd a Rhifedd *Literacy and Numeracy*

Darpariaeth Parhaus / Continuous Provision

Cyfnod Sylfaen *Foundation Phase*
Arweinyddiaeth *Leadership*
Cau'r Bwlch – ADY *Closing the Gap - ALN*
Cynghorau'r Ysgol *School Council*

10. ADOLYGIAD O BOLISÏAU A STRATEGAETHAU */ REVIEW OF POLICIES AND STRATEGIES*

Mae'r Corff Llywodraethu, trwy ei strwythur pwyllgorau, yn cynnal adolygiadau blynyddol a chwe misol o bolisïau'r ysgol. Yn ystod cyfarfodydd tymhorol y Corff Llywodraethu Llawn, mae'r Corff Llywodraethu'n trafod ac yn mabwysiadu, fel y bo'n briodol, bolisïau newydd a diwygiedig a gyflwynwyd gerbron gan yr Awdurdod Lleol. Mae strategaethau'r ysgol yn cael eu trafod a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae Cadeirydd y Llywodraethwyr ynghyd ag aelodau eraill yn cydweithio'n agos gyda'r Pennaeth a'r Uwch Dîm Rheoli. Mae'r Corff Llywodraethu Llawn yn cael ei wahodd yn flynyddol i gyflwyniad ar y Cynllun Gwella Ysgol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae ein gwefan yn dal i gael ei datblygu a bydd yn cynnwys holl bolisïau perthnasol yr ysgol.

The Governing Body, through its committee structure, undertakes annual and bi-annual reviews of school policies. During the termly Full Governing Body meetings, the Governing Body discusses and adopts, as appropriate, new and reviewed policies brought forward by the Local Authority. School strategies are discussed and reviewed on a regular basis. The Chair of Governors along with other members works closely with the Headteacher and the Senior Management Team. The Full Governing Body is invited annually to a presentation of the new School Improvement Plan for the forthcoming year. Our website continues to be developed and will feature all relevant school policies.

11. DYDDIADAU TYMHORAU / *TERM DATES*

Blwyddyn Academaidd 2019-20 *Academic Year*

Tymor	Dechrau Start	Gwyliau Hanner Tymor Half Term Holidays		Diwedd End
		Dechrau Start	Diwedd End	
Hydref 2019 Autumn	02.09.19	28.10.19	01.11.19	20.12.19
Gwanwyn 2020 Spring	06.01.20	17.02.20	21.02.20	03.04.20
Haf 2020 Summer*	20.04.20	25.05.20	29.05.20	20.07.20

Diwrnod HMS / *INSET Days*

02.09.19 04.10.19 25.10.19 14.02.20 20.04.20 20.07.20

*Sylwch fod Gŵyl Banc mis Mai wedi symud i ddydd Gwener 8 Mai 2020.

**Please note that the May Bank Holiday has moved to Friday 8 May 2020.*

12. PROSBECTWS YR YSGOL / *SCHOOL PROSPECTUS*

Mae prosbectws yr ysgol yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol a'i ailysgrifennu i adlewyrchu newidiadau o ran Aelodau'r Corff Llywodraethu ac Aelodau o Staff ynghyd ag unrhyw ddeddfwriaeth newydd. Mae ar gael o'r ysgol neu ar wefan yr ysgol.

The school prospectus is updated annually and rewritten to reflect changes in Governors and Staff members along with any new legislation. It is available from school or on the school website.

13. Y CWRICWLWM A DULLIAU ADDYSGU / *CURRICULUM AND TEACHING METHODS*

Y Cyfnod Sylfaen / *Foundation Phase* **Oed 3 – 7 *Age***

Yn y cyfnod hwn mae prif sylfeini profiadau dysgu'n cael eu gosod. Bydd y pwyslais ar ddatblygu sgiliau hanfodol cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd. Trwy ddarparu cwricwlwm cyfoethog eang gan ddefnyddio dull integredig, ein nod yw datblygu diddordebau'r plant gan hefyd gydnabod eu lefel aeddfedrwydd. Mae'r rhain yn flynyddoedd pwysig lle mae'r plant yn dysgu sut i arsylwi, gwrando, ymateb a datblygu nid dim ond fel unigolion ond hefyd fel aelodau gofalgar o'n cymuned.

At this stage the main building blocks of learning experiences are laid. The emphasis will be on developing essential skills of communication, literacy and numeracy. By providing a broad rich curriculum using an integrated approach, we aim to develop the children's interests whilst also recognising their level of maturity. These are important years where children learn how to observe, listen, respond and develop not only as individuals but also as caring members of our community.

Cyfnod Allweddol 2 / *Key Stage 2* **Oed 7 -11 *Age***

Sgiliau hanfodol cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a TGCh yw ffocws canolog ein cwricwlwm. Ond, wrth i'w dealltwriaeth am wahanol ddisgyblaethau gynyddu, rhoddir mwy o bwyslais ar Wyddoniaeth a'r pynciau sylfaen. Bydd y cwricwlwm yn dal i ddigwydd o fewn themâu integredig lle mae'n ystyrlon ac yn berthnasol. Bydd plant yn cael eu hannog i ddatblygu hunanhyder, annibyniaeth wrth ddysgu, cydnerthedd a sgiliau lefel uwch mewn ystod o sefyllfaoedd.

The essential skills of communication, literacy, numeracy and ICT are the central focus of our curriculum. But, as their understanding of the different disciplines increases, a greater emphasis is placed on Science and the foundation subjects. The curriculum will still take place within integrated themes where it is meaningful and relevant. Children will be encouraged to develop self-confidence, independence in learning, resilience and higher order skills in a range of situations.

Gwybodaeth Pellach / *Further Information*

Yn ein hysgol rydym yn ymegnïo i ddatblygu cwricwlwm a fydd yn darparu'r canlynol ar gyfer y plant:

- Profiadau ystyrlon, uniongyrchol
- Amrywiaeth o ffyrdd y gall y plant fynegi eu hunain
- Amrywiaeth o strategaethau a dulliau addysgu gwahaniaethol
- Dull dysgu sy'n seiliedig ar themâu trawsgwricwlaidd
- Proses ddysgu sy'n gydlynol ac yn gynyddol
- Strwythur dysgu sydd wedi'i gynllunio'n drylwyr ac yn ofalus
- Cyfleoedd i blant weithio mewn grwpiau, fel parau, fel dosbarth cyfan ac fel unigolion.

Hefyd, rydym yn ymegnïo i greu cyfleoedd i blant wneud y canlynol:

- Cydweithredu
- Rhannu
- Magu hyder
- Helpu ei gilydd
- Datblygu ymwybyddiaeth o'u potensial eu hunain
- Arwain
- Bod â chonsyrn dros eraill
- Arbrofi
- Deall syniadau a chysyniadau
- Datblygu a meistroli sgiliau

In our school we strive to develop a curriculum which will provide the children with the following:

- *Direct, meaningful experiences*
- *A variety of modes through which children can express themselves*
- *A variety of differentiated teaching strategies and approaches*
- *A learning approach which is based on cross-curricular themes*
- *A learning process which is coherent and progressive*
- *A learning structure which has been thoroughly and carefully planned*
- *Opportunities for children to work in groups, as pairs, as a whole class and as individuals.*

In addition, we strive to create opportunities for children to:

- *Co-operate*
- *Share*
- *Gain confidence*
- *Help each other*
- *Develop an awareness of their own potential*
- *Lead*
- *Have concern for others*
- *Experiment*
- *Understand ideas and concepts*
- *Develop and master skills*

14. CATEGORI IAITH A DEFNYDD O'R GYMRAEG / *LANGUAGE CATEGORY AND USE OF THE WELSH LANGUAGE*

Ysgol cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Gymraeg Bro Ogwr. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen addysgir pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr Adran Iau addysgir pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg heblaw am Saesneg, a gyflwynir ym Mlwyddyn 3. Mae Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn rhoi safon iaith ragorol i'r disgyblion o ran y Gymraeg ac yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gallu cael mynediad at amrywiaeth eang o destunau a gwmpesir gan y "Cwricwlwm Cymreig" a'r "Siarter Iaith".

Ysgol Gymraeg Bro Ogwr is a Welsh medium school. The Welsh language is the official language of the school. In Foundation Phase all subjects are taught through the medium of Welsh. In the Junior Department subjects are taught through the medium of Welsh apart from English, which is introduced in Year 3. Ysgol Gymraeg Bro Ogwr provides pupils with an

excellent standard of Welsh and ensures that all pupils are able to access a wide variety of topics covered by the "Curriculum Cymreig" and 'Y Siarter Iaith'.

15. CYFLEUSTERAU TOILEDAU / *TOILET FACILITIES*

Ceir darpariaeth ddigonol o ran cyfleusterau toiledau ar gyfer disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen (Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2). Ceir cyfleusterau ar wahân ar gyfer bechgyn a merched ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Mae'r holl gyfleusterau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen wedi'u lleoli ym mhrif adeilad yr ysgol.

Mae nifer y toiledau sydd ar gael yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion yn yr Adran Iau. Ceir cyfleusterau digonol, ar wahân ar gyfer bechgyn a merched yn yr Adran Iau. Mae'r cyfleusterau wedi'u lleoli ym mhrif adeilad yr ysgol a hefyd yn y cabanau sydd wedi'u lleoli y tu ôl i adeilad yr ysgol.

Mae'r plant yn dda am edrych ar ôl ardaloedd yr holl doiledau ar y cyfan. Mae'r toiledau'n cael eu glanhau'n ddyddiol gan y Gwasanaethau Glanhau Corfforaethol a gyflogir yn yr ysgol. Mae unrhyw faterion gweithredol neu lanhau yn ystod y diwrnod ysgol yn cael sylw prydlon gan staff yr ysgol.

There is adequate provision of toilet facilities for pupils in the Foundation Phase (Nursery, Reception, Years 1 and 2). There are separate facilities for boys and girls in Years 1 and 2. All the facilities for Foundation Phase are located within the main school building.

The number of toilets available is adequate for the number of pupils in the Junior Department. There are separate, adequate facilities for boys and girls in the Junior Department. The facilities are located within the main school building and also in the demountable buildings situated at the rear of the school building.

All toilet areas are generally well looked after by the pupils. The toilets are cleaned daily by the Corporate Cleaning Services employed by the school. Any operational or cleaning issues during the school day are addressed promptly by school staff.

16. BWYTA'N IACH / *HEALTHY EATING*

Daeth y "Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion" i rym ar ddydd Llun 2 Medi 2013. Mae'r Ysgol wedi cael tystysgrif gan yr Awdurdod yn datgan bod y fwydlen a ddarperir gan Wasanaethau Arlwyo'r Awdurdod yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau a nodir yn nogfen Llywodraeth Cymru "Blas am Oes".

The "Healthy Eating in Schools Measure" came into force on Monday 2nd September 2013. The School has received a certificate from the Authority stating that the menu provided by the Authority's Catering Services is fully compliant with the standards set out in the Welsh Government document "Appetite for Life".